Integration Justice Equality
Integreiddio Cyflawnder Cydraddoldeb
Race Council Cymru

**Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR HIL A CHYDRADDOLDEB**
**CYFARFOD 27 EBRILL 2022 (WEDI'I GYNNAL DRWY ZOOM)**

**Cofnodion**

**YN BRESENNOL**
Griffiths, John Andrew (JG); Yr Athro Uzo Iwobi OBE (PO); Jeremy Miles (JM); Meena Upadhyaya (MU); Charlotte William (CW); Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru (CIWA); Shavanah Taj (ST); Sy Joshua (SJ); Patricia Jones (PJ); Ray Singh (RS); Kay Denyer (KD); Stubley-Adje, Lily (LS); Cubbage, Eleri (EC); Moore, Robert (RM); Loren Henry (LH); Davis, Susan (SD); Christina Tanti (ST); Helal Uddin (HU); Bettridge, Andrew (AB); Rees, Chloe; Leila Usmani; Deezee (D); Spooner, Marcia (MS); Hywell, Ellin (EH); Hough, Sarah (SH); Ali Abdi (AA); Pogsley, John (JP); Maria Mesa (MM); Jasmine Okai (JO); Shumon Shah (SS); Lisa Gardner (LG); Ross Thomas (RT); Chudi Okeh (CO).

Dechreuodd y Cyfarfod am 11.00 gyda sylwadau agoriadol gan Mr. John Griffiths AS, y Cadeirydd a'r cymedrolwr.

**COFNODION**

1.
**Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd:**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y siaradwyr, gan gydnabod mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i wneud addysgu hanes a phrofiadau pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn orfodol yn y cwricwlwm ysgol, sy'n rhan o'r fframwaith newydd y disgwylir iddo gael ei gyflwyno ym mis Medi 2022. Hefyd, soniodd am yr hyfforddiant y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno i helpu i gyflawni agenda hollgynhwysol.

2.
**Charlotte William:**
Rhoddodd drosolwg ar y gwaith o lunio'r 51 o argymhellion a wnaed yn adroddiad y gweithgor ar Bolisi ac Arferion Addysg yng Nghymru. Tynnodd sylw at rai o'r datblygiadau presennol, gan gynnwys:

- Diffyg adnoddau priodol ar gyfer athrawon ac ymarferwyr addysg eraill; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd cam cadarnhaol ymlaen wrth gynnwys hanes pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel rhan o hanes ehangach Cymru.
- O ran dysgu proffesiynol, mae yna brosiect Dysgu Proffesiynol ym maes Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL yn Saesneg, sef 'Diversity and Anti-racist Professional Learning'). Mae'r wefan gysylltiedig yn dal i gael ei datblygu, ac mi fydd yn cynnwys campws rhithwir ar gyfer hwyluso prosiectau, digwyddiadau, adnoddau a deialog. Bydd hefyd yn ganolbwynt ar gyfer dysgu a datblygu proffesiynol.

- Tynnodd Charlotte William sylw at yr hyn y mae'r saith darparwr ledled Cymru yn mynd i'w wneud yn fwy rhagweithiol i recriwtio pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan nodi y bydd rhai bwrsariaethau ar gael hefyd.
- Gwobrau Betty Campbell MBE - Bydd ysgolion yn cael cyfle i wneud enwebiadau i hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ar 10 Gorffennaf.
- Soniwyd hefyd am y cyllid ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru i gefnogi'r syniad o gael hyrwyddwr amrywiaeth ymhlith llywodraethwyr ysgolion, gan gynnig hyfforddiant a datblygiad proffesiynol drwy'r Academi Genedlaethol.
- Nododd ei gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru a hefyd gyda Chymwysterau Cymru drwy'r bwrdd cynghori, a thrwy hynny edrych ar yr egwyddorion asesu ar gyfer TGAU a'r mathau newydd o gwricwla mewn ysgolion os ydynt yn mynd i adlewyrchu'r egwyddorion perthnasol. Dywedodd ei bod yn agored i syniadau, gwybodaeth, cwestiynau, cyngor a safbwyntiau.
- Cafodd cyfraniadau eraill gan Lenyddiaeth Cymru, y Cyngor Llyfrau, Cyngor y Celfyddydau a sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n paratoi ar gyfer yr agenda hon, yn enwedig y gofynion o ran adnoddau, eu crybwyll hefyd.

3.
**Shavanah Taj - TUC Cymru**
I ategu'r hyn a ddywedodd yr Athro Charlotte William, nododd Shavanah ei bod yn cefnogi'r holl brosiectau wrth symud ymlaen er cysondeb a bod yn rhaid i'r materion hyn fod yn rhan greiddiol o broses gynllunio cyllidebol Llywodraeth Cymru. Os nad yw hynny'n digwydd, caiff ei ychwanegu at y rhestr o bethau y gofynnir i'r trydydd sector eu gwneud ledled Cymru.

Mae rhai o brofiadau gweithwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn ogystal â'r materion sy'n dod i sylw'r undebau llafur, wedi'u nodi isod:

- Mae undebau llafur ac aelodau cyswllt TUC Cymru wedi croesawu'r syniad o gyflwyno gwersi hanes pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion fel rhan o'r cwricwlwm newydd, sy'n gam chwyldroadol. Fodd bynnag, mae undebau athrawon ac undebau ysgolion wedi mynegi pryderon mawr ynghylch y rhwystrau sy'n atal pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol rhag ymuno â'r proffesiwn a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud cynnydd yn y proffesiwn hefyd, yn ogystal â'r materion sy'n eu hwynebu o ran pwysau gwaith, cydraddoldeb cyflog a'r posibilrwydd o gael dyrchafiad, ymhlith nifer o faterion eraill. Gofynnwyd beth mae'r TUC yn ei wneud mewn perthynas â chau'r bwlch.
- Mae cyfrifoldebau staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru yn amrywio, ac nid yw cyfraddau cyflog yn ymateb i'r amrywiaeth hwn. Weithiau, gofynnir i staff cymorth oruchwylio dosbarthiadau ar eu pen eu hunain pan nad ydynt wedi'u hyfforddi i wneud

hynny nac yn cael eu talu am ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Mae telerau contractau cyflogaeth yn amrywio, a cheir diffyg cyflogau teg.

- Nid yw'r ffordd yr ymdrinnir â gwahaniaethu ar sail hil mewn ysgolion gan fyrddau llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol yn adlewyrchu poblogaeth y cymunedau lleol.
- Dylid pennu rhai ystyriaethau sylfaenol wrth recriwtio ar gyfer byrddau llywodraethu ysgolion, ni waeth pa blaid wleidyddol sydd wrth y llyw.

4.

**Jeremy Miles - Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Dywedodd y Gweinidog, o'i safbwynt personol ef, ei fod wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod yr addysg, y cyfleoedd a'r canlyniadau a roddir i holl blant a phobl ifanc Cymru yn deg ac yn gyfartal ym mhob ffordd.

- Roedd yn cydnabod y ffaith bod hiliaeth yn dal i fod yn realiti i lawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru o ran bwlio ac aflonyddu hiliol, gan gynnwys mewn ysgolion ac yn aml gan eu cyfoedion. Hefyd, nododd yr anghydraddoldeb a'r profiadau mewn cymdeithas, yn enwedig i blant a phobl ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, sydd weithiau'n eu rhwystro rhag gwireddu eu breuddwydion a'u dyheadau i wneud cynnydd yn eu haddysg. Ailadroddodd ei ymrwymiad i greu diwylliant gwrth-hiliol a fydd yn treiddio drwy'r system addysg.
- Fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru sydd ar ddod, ceir nodau hirdymor sy'n bolisïau uchelgeisiol i greu newid a chael effaith wirioneddol. Maent yn amrywio o fynnu bod pob sefydliad addysgol yng Nghymru yn ymdrin â hiliaeth sefydliadol, drwy fabwysiadu dull sefydliad cyfan i wella lefelau recriwtio athrawon o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ond hefyd i gadw'r athrawon hyn a sicrhau dilyniant at rolau arweiniol. Yn gryno, dylai pob sefydliad addysgol gofnodi achosion o gam-drin, gwahaniaethu a bwlio ar sail hil, ac ymateb i'r achosion hyn yn effeithiol. Hefyd, dylid sicrhau bod yr hyn a addysgir yn adlewyrchu hanes a phrofiadau ein cymunedau amrywiol yng Nghymru.
- Caiff y Cwricwlwm i Gymru ei gyflwyno o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd yn cynnwys pob ysgol gynradd, ac mae gan hanner ein hysgolion uwchradd yr opsiwn o ddechrau ar y gwaith eleni hefyd; bydd yr hanner arall yn dechrau y flwyddyn nesaf. Bydd y cwricwlwm yn rhoi ymdeimlad o berthyn i athrawon a dysgwyr wrth ddathlu diwylliannau amrywiol yn y Gymru fodern. Bydd hefyd yn cefnogi dysgwyr unigol i feithrin cysylltiadau cryf â'u cartrefi a'u cymunedau, gan gofleidio profiadau'r gorffennol a'r presennol. Bydd athrawon yn cefnogi dysgwyr i feithrin ymdeimlad o berthyn a fydd yn eu hannog i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau ac yn ymdrin â hiliaeth hefyd.
- Gweledigaeth y Gweinidog yw bod pob person ifanc yng Nghymru yn deall sut mae hanes, amrywiaeth ieithyddol a diwylliannau amrywiol Cymru wedi helpu i lunio gwladwriaeth fodern unigryw. Y weledigaeth hefyd yw ysbrydoli pobl i warchod eu treftadaeth unigryw a'r iaith Gymraeg, a'r ffordd y mae'r iaith yn cael ei defnyddio yng nghyd-destun amrywiaeth eang y Gymru fodern.

- Mae’n rhaid sicrhau bod pob athro yn gwybod sut i ddylunio’r cwricwlwm i adlewyrchu arfer da a sicrhau bod pob ysgol a rhanddeiliad yn mabwysiadu dull cyffredin o drafod hanes Cymru a hanes pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Rhaid iddynt ddeall sut mae iaith yn chwarae rhan hanfodol yn ein hunaniaeth yng Nghymru a ledled y byd.
- Ailadroddodd hefyd ei ymrwymiad i weithredu'r argymhellion yn adroddiadau'r gweithgor, y bydd yn eu cyhoeddi ddechrau mis Rhagfyr. Yn olaf, dywedodd fod addysgu hanes a chyfraniadau pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn hanfodol, gan fod hyn yn ffordd o gydnabod gwerthoedd a chyfraniadau ein holl gymunedau ar draws y cwricwlwm ac yn grymuso dysgwyr i archwilio mwy o’n hanes a’n treftadaeth a meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a llesiant fel rhan o gymdeithas deg a chyfartal. Mae’n rhaid i hyn fod yn rhan greiddiol o bob rhan o’r cwricwlwm.

**Cwestiynau ac atebion**
Atebodd y Gweinidog gwestiynau gan Charlotte William, Patricia Jones, Sy Joshua, Leila Usmani, Meena Upadhyaya a Deezee.

5.
**Y Barnwr Ray Singh - Myfyrdodau**
Os ydych am newid y naratif, newidiwch y systemau sy'n parhau i achosi anghydraddoldeb ac sy'n parhau i arwain at ganlyniadau sy'n gweithio yn erbyn y bobl. I sicrhau newid, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i gyfeillion sy'n rhannu’r weledigaeth bod y gwaith hwn o fudd i bawb, a bod yr hyn sy'n dda i leiafrifoedd ethnig yn dda i'r gymdeithas ehangach hefyd.

6.
**Cynnig Uzo Iwobi i'r cyfarfod**
Soniodd am gwpl o faterion pwysig, gan gynnwys:
- Y cyllid cyfyngedig sydd gan sefydliadau i wneud y gwaith arfaethedig ar wrth-hiliaeth.
- Yr angen am ymateb trawsbleidiol cryf i sicrhau bod arweinwyr pleidiau gwleidyddol eraill yn cyd-fynd â'r mentrau hyn.
- Yr angen i sefydliadau ymrwymo i addewid Dim Hiliaeth Cymru.
- Yr angen i unigolion ymrwymo i addewid Dim Hiliaeth Cymru hefyd.
- Mae’n rhaid codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o’r angen iddynt fod yn atebol am eu hymddygiad eu hunain.
- Yr angen am sgwrs i drafod sut i sicrhau naratif cydlynol ar rai o'r cysyniadau a godwyd yn ystod y cyfarfod.

7.
**Trafodaethau a chasgliadau cyffredinol**

Race Council Cymru

Integration Justice Equality
Integreiddio Cyfiawnder Cydraddoldeb

**Robert Moore**

Nododd Robert fod hiliaeth yn ffynnu yng nghyd-destun amddifadedd, ansicrwydd ac anghydraddoldeb cyffredinol, ac mae'n amlwg mai dyma'r realiti yn y DU ar hyn o bryd.

**Leila Usmani**

- Gwnaeth Leila bwynt pwysig ynghylch nodi rhanddeiliaid eraill sy’n gysylltiedig â llywodraeth leol yng Nghymru, gan weithio tuag at gydlyniant ehangach y tu allan i ysgolion yn ogystal ag o fewn ysgolion.
- Hefyd, beth yw'r cynlluniau ar gyfer y sector addysg anffurfiol o ran ymdrin â hiliaeth ac addysgu’r materion hyn?

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30.